



Cronfa Bensiwn Dyfed

Manylion Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth (Ar gyfer aelodau sy'n cyfrannu ar ôl 31 Mawrth 2008)

Darllenwch y nodiadau canlynol yn ofalus cyn cwblhau os gwelwch yn dda.

- Mae grant marwolaeth yn daladwy yn syth ar eich marwolaeth:
 - pan ydych yn aelod cyfredol o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL); neu
 - os oes gennych fuddion gohiriedig yn Gronfa Bensiwn Dyfed; neu
 - os ydych yn marw o fewn 10 mlynedd i dderbyn y pensiwn oddi wrth Cronfa Bensiwn Dyfed.
- Y lefel o grant marwolaeth sydd yn daladwy yw:
 - 3 x cyflog pensiynadwy blynyddol mewn perthynas ag aelod cyfredol o'r CPLIL;
 - 5 x pensiwn cronedig plws cynyddiad pensiynau cronol mewn perthynas ag aelod gohiriedig;
 - 10 x pensiwn blynyddol llai unrhyw daliadau sydd eisoes wedi eu gwneud mewn perthynas ag aelod sy'n pensiynwr o dan 75 mlwydd oed.
- Os ydych yn aelod gweithredol o'r CPLIL gyda chyfnod o aelodaeth ohiriedig CPLIL cynharach, bydd y grant marwolaeth sy'n daladwy yn y mwyaf o naill ai'r grant marwolaeth mewn perthynas â'ch cyfnod gweithredol o aelodaeth, neu'r grant marwolaeth mewn perthynas â'ch budd-dal gohiriedig, **pa un bynnag yw'r mwyaf.**
- Fel aelod cyfredol, os ydych yn gweithio yn rhan amser, fe gyfrifir eich grant marwolaeth yn unol â'ch **gwir gyflog pensiynadwy.**
- Gallwch fynegi dymuniad i gynnig un neu ragor o unigolion, neu sefydliad, i dderbyn y grant marwolaeth sy'n daladwy ar achlysur eich marwolaeth. Yng nghyswllt absenoldeb Ffurflen Mynegi Dymuniad, bydd y taliad yn cael ei wneud i'ch cynrychiolwr personol h.y. eich Ystâd.
- **Os byddwch yn dymuno enwebu 'Plentyn Dan Oed', sylwer y bydd unrhyw daliad mewn perthynas â'r enwebai hwn yn cael ei wneud i gronfa ymddiriedolaeth.**
- Y fantais o fynegi Dymuniad yw bydd y grant marwolaeth yn cael ei dalu yn gyflym, heb orfod disgwyl sawl wythnos o bosib i'ch Ystâd gael ei gytuno. Mantais arall yw na fydd eich taliad yn cael ei gyfrif fel rhan o'ch Ystâd, gan osgoi unrhyw gyfrifoldeb Treth Etifeddiaeth.
- Fe'ch cynghorir i gadw copi o'ch ffurflen Mynegi Dymuniad, ynghyd â'r nodiadau hyn a'u cadw yn ofalus ar gyfer eich cofnodion. Tra bod yn rhaid i'r Awdurdod Gweinyddol o dan Gyfraith Pensiwn, gadw'r hawl i ddiystyru unrhyw fynegiant o ddymuniad, pwrpas y ffurflen hon yw eich cynorthwyo i wneud cynlluniau ariannol priodol rhag ofn marwolaeth gynnar.
- Gallwch ddiwygio eich mynegiant dymuniad(au) ar unrhyw adeg trwy gwblhau ffurflen arall, fydd yn diddymu unrhyw fynegiant dymuniad blaenorol. Os ydych yn dymuno diwygio unrhyw fynegiant dymuniad blaenorol cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn yn y cyfeiriad isod os gwelwch yn dda.
- Ar gyfer taliad Grant Marwolaeth yn UNIG y bwriedir y ffurflen hon ac nid oes iddi unrhyw berthnasedd i daliad pensiwn y sawl sy'n eich goroesi ar achlysur eich marwolaeth.
- Nodwch os gwelwch yn dda NAD yw Cronfa Bensiwn Dyfed wedi rhwymo yn gyfreithiol i'r ffurflen hon, oherwydd er mwyn i'r manteision treth fod yn berthnasol, mae'n rhaid i'r Gronfa gadw disgresiwn llawn yng nghyswllt dyraniad eich taliad grant marwolaeth.
- **Os oes mwy nag un buddiolwr sicrhewch fod y cyfansymiau canradd yn 100% os gwelwch yn dda.**
- Ni allwch ddatgan pwy fyddai'n olynydd pe bai eich buddiolwr enwebedig yn marw o'ch blaen. Yn yr achos yma dylech gwblhau ffurflen Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth newydd.
- **Os oes gennych unrhyw gwestiwn neu os ydych angen rhagor o fanylion, cysylltwch a'ch Cyflogwr.**



Cronfa Bensiwn Dyfed

Mynegi Dymuniad eich Grant Marwolaeth

(Os oes angen rhagor o le, rhowch y manylion ar daflen ar wahân)

Manylion Personol			
Enw:			
Rhif Yswiriant Gwladol:		Dyddiad Geni:	
Cyfeiriad Cartref:			
		Cod Post:	

Dewis iaith				(✓ y blwch priodol i nodi eich etholiad)			
Fel aelod o'r CPLIL, hoffwn dderbyn HOLL ohebiaeth a ddaw yn y dyfodol yn:							
GYMRAEG	<input type="checkbox"/>	SAESNEG	<input type="checkbox"/>	DDWYIEITHOG	<input type="checkbox"/>		

Mynegi Dymuniad (Buddiolwr 1)			Cyfran
Enw:			%
Dyddiad Geni:		Perthynas:	
Cyfeiriad:			
		Cod Post:	

Mynegi Dymuniad (Buddiolwr 2)			Cyfran
Name:			%
Dyddiad Geni:		Perthynas:	
Cyfeiriad:			
		Cod Post:	

Mynegi Dymuniad (Buddiolwr 3)			Cyfran
Enw:			%
Dyddiad Geni:		Perthynas:	
Cyfeiriad:			
		Cod Post:	

Datganiad	Dychweler y ffurflen hon at eich Cyflogwr		
Rydw i wedi darllen y nodiadau drosodd. Gofynnaf i Cyngor Sir Gâr (yr Awdurdod Gweinyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed) ddefnyddio disgrisiwn llwyr wrth ystyried talu unrhyw lwmp swm budd marwolaeth sy'n ddyledus dan CPLIL i'r unigolyn/unigolion ac/neu sefydliad(au) a enwir uchod ac (os yn fwy nag un) eu rhannu yn unol â'm mynegiant dymuniad. NODWCH os nad ydych yn nodi eich dewis iaith uchod, bydd POB ohebiaeth yn y dyfodol yn cael ei anfon atoch yn fformat ddwyieithog.			
Llofnod:		Dyddiad:	